Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol (LPIP) Cymru Wledig
Rôl Annibynol ar gyfer Cydlynydd Ymchwil Cymunedol Y Drenewydd

Dyddiad dechrau: diwedd Ebrill 2025

Beth yw Gyda'n Gilydd dros Newid (TfC)?

Dechreuwyd Gyda'n Gilydd dros Newid gan y bobl sy'n ymwneud â'r elusen llawr gwlad Gofal Solfach, mewn ymateb i gynlluniau a phrofiadau'r gymuned wrth greu pentref hapus, iach a chysylltiedig. Rydym yn credu, trwy weithio gyda'n gilydd, ledled y sir a thu hwnt, fod gennym well siawns o greu bywyd da i bawb ac atebion cynaliadwy i'n planed. Darllenwch fwy am Gyda'n Gilydd dros Newid drwy ddilyn y ddolen isod.
Ein Stori – Gyda'n Gilydd dros Newid

Beth yw Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig (LPIP)?

Mae'r fenter gydweithredol hon yn cynnwys ymchwilwyr academaidd, cyrff cyhoeddus, a rhanddeiliaid y sector preifat a'r trydydd sector, i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r defnydd o ymchwil ac arloesi i gefnogi llunio polisïau, datblygu rhanbarthol, a chydnerthedd cymunedol ledled y Gymru wledig. Mae Gyda'n Gilydd dros Newid (TfC) yn arwain y gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Ymchwil Gweithredu dan arweiniad y Gymuned ac mae'n ymgysylltu â phum cymuned ar draws themâu blaenoriaeth yr LPIP, gan gynnwys Penrhyn Dewi. Darllenwch fwy drwy ddilyn y ddolen isod.
Gyda'n Gilydd dros Newid yn arwain y gwaith o gyflawni Ymchwil Weithredu dan Arweiniad y Gymuned mewn partneriaeth â PPALL– Gyda'n Gilydd dros Newid.

Pam mae'r rôl hon yn bwysig nawr

Wrth i gymunedau gwledig lywio tirweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n newid, mae hunaniaeth a phwrpas Trefi Marchnad Cymru yn esblygu. Mae'r rôl hon yn dod mewn cyfnod tyngedfennol, gan gynnig cyfle i weithio gyda'r gymuned i ddiffinio beth mae'n ei olygu i fyw, gweithio a ffynnu mewn Tref Farchnad fodern. Drwy ymchwil leol a deialog, bydd y Cynllun Gweithredu Cymunedol

yn helpu i lunio gweledigaeth ar gyfer y dyfodol sy'n adlewyrchu dyheadau, gwerthoedd a gwydnwch y Drenewydd – gan osod cynsail i drefi eraill ar draws Cymru.

Dyletswyddau'r rôl

- Cydlynu cyfarfodydd tîm rheoli'r prosiect wyneb yn wyneb ac ar-lein
- Cydlynu a chefnogi'r ymchwilwyr gwirfoddol gan gynnwys cefnogi gydag asesiadau risg.
- Cyswllt e-bost, ar-lein a dros y ffôn yn rheolaidd gyda'r Hwylusydd Ymchwil Cymunedol yn Gyda'n Gilydd dros Newid i gysylltu rhwng yr LPIP a Grŵp Cynllunio Prosiect Y Drenewydd.
- Cydlynu recriwtio pobl i'w cyfweld ar gyfer yr ymchwil.
- Cydlynu dosbarthiad arolygon drwy ddigwyddiadau.
- Rheoli a phostio ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r prosiect ymchwil.
- Cadw cofnodion cywir o wariant yn erbyn y gyllideb a chadw derbynebau ac anfonebau yn ddiogel i'w hanfon at dîm yr LPIP.
- Archebu lleoliadau a lluniaeth a threfnu digwyddiadau cymunedol.
- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyfathrebu ac ymchwil yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Gofyniad achlysurol i weithio rhai nosweithiau a phenwythnosau mewn digwyddiadau cymunedol.

Pa sgiliau a phrofiad rydym yn chwilio amdanynt?

- Cysylltiadau a rhwydweithiau da ar draws cymuned y Drewnewydd.
- Sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.
- Sgiliau ysgrifenedig ar gyfer anfon negeseuon e-bost cwrtais, ysgrifennu. adroddiad byr am y prosiect, dylunio posteri a thaflenni.
- Profiad o weithio gyda grwpiau cymunedol neu wirfoddolwyr.

• Cymraeg Llafar ac Ysgrifenedig Lefel A1 neu A2*

*Mae rhagor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hr/application-faqs/

Yr hyn y gall y rôl ei gynnig i chi

- Hyfforddiant a chefnogaeth ar reoli prosiectau ymchwil.
- Cyfle i adeiladu eich rhwydwaith o fewn yr LPIP gyda chysylltiadau academaidd ledled Cymru.
- Cyfle i wneud cysylltiadau â llunwyr polisi ar lefel leol a chenedlaethol.
- Cefnogaeth gan yr Hwylusydd Ymchwil Cymunedol yn yr LPIP.

Amodau'r contract

- Mae hon yn swydd hunangyflogedig, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyflogi fel contractwr annibynnol.
- Byddwch yn gyfrifol am reoli eich costau treth, yswiriant a busnes eich hun.
- Yn cyfateb i 1 diwrnod yr wythnos, a disgwyl y treulir rhywfaint o amser yn gwirio negeseuon e-bost yn fwy rheolaidd trwy gydol yr wythnos.
- Contract tymor byr i ddechrau diwedd Ebrill 2025 – diwedd Medi 2025.
- Cyfle am gontract/gwaith annibynol yw hwn, nid swydd gyflogedig.
- Bydd taliad yn cael ei wneud ar ôl derbyn anfonebau.
- Nid yw'r contract yn cynnwys buddion gweithwyr fel tâl gwyliau neu absenoldeb salwch.
- Bydd yr holl gostau teithio a threuliau yn cael eu talu o fewn y gyllideb ar gyfer Prosiect LPIP Y Drenewydd.

Sut i wneud cais

Dyddiad cau: hanner nos, 25 Ebrill 2025
Anfonwch CV a llythyr eglurhaol fel dogfennau Word yn amlinellu pam y byddech yn addas ar gyfer y rôl a pham eich bod eisiau bod yn rhan o'r LPIP. Nodwch sut rydych yn bodloni'r meini prawf gydag enghreifftiau o brofiad blaenorol o rolau cyflogedig neu wirfoddol. Byddwn yn derbyn ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Anfonwch eich cais ar e-bost at Amy.Nicholass@tfcpembrokeshire.org